



Adroddiad Blynyddol 2017/18

Cynghorydd Annwen Hughes

Ward Llanbedr a
Llanbrynmair



Plaid Cymru

Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn

[Gweler y ddolen](#) i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau. Pwyllgorau a chyrrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb

Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

- Gweithio yn y gymuned a chyd-weithio gyda'r Cyngorau Cymuned Lleol i wneud yn siŵr fod buddiannau'r cymunedau yn cael eu diogelu.
- Ymgyrchu i osod stripiau coch bob ochr i'r ffordd ger y fynedfa i Ganolfan Gristnogol Pensarn er mwyn ceisio arafu traffig a hefyd oherwydd bod y groesffordd i fyny am Bensarn ei hun yn beryglus.
- Helpu ar bob cyfle bosib' yn y gegin cawl a gynhelir ar gyfer henoed pentrefi Llanbedr a Llanfair, gan hefyd achub ar y cyfle i gael sgwrs gyda'r trigolion sy'n mynychu a gwrando ar eu pryderon a'u cwynion.
- Ymweld â'r ysgol gynradd yn Llanbedr yn rheolaidd.
- Gyda chymorth y Swyddog Trefi Taclus, llwyddo i gael posteri wedi'u gwneud a'u rhoi i fyny o amgylch yr ardal yn atgoffa ymwelwyr a phobl leol i roi ysbwriel yn y bin a hefyd i godi a gwaredu ar ôl i'w cŵn faeddu.
- Cynnal cyfarfod gyda'r Adran Priffyrdd mewn ymgais i ddatrys y broblem goryrru i lawr am faes parcio'r Maes yn Llandanwg. O ganlyniad i osod mesurydd traffig ar y ffordd, bwriada'r Cyngor symud yr arwydd 30mya yn nes i lawr am Landanwg.
- Ymgyrchu gyda Swyddogion Network Rail yng nghyfarfodydd Pwyllgor Arfordir y Cambrian i gael rhwystrau ar groesfan Talwrn Bach, Llanbedr. 'Roedd y gwaith hwn i fod i gychwyn eleni, ond yn anffodus, gan i gwmni Carillion fynd i'r wal, bydd raid cychwyn y broses dendro unwaith eto.
- Parhau i ymgyrchu i gael y ffordd osgoi. Yn dilyn sawl ymgyngoriad, y gobaith, erbyn hyn, yw y bydd y cynllun yn mynd gerbron Pwyllgor Cynllunio'r Parc Cenedlaethol yn fuan.

Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

- Cyfarfodydd Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian
- Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanbedr (Cadeirydd y Bwrdd)
- Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Ardudwy Harlech
- Grŵp Rhanddeiliad Gwella Mynediad i Faes Awyr Llanbedr
- Cyfeillion Coed Hafod y Bryn, Llanbedr
- Mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanbedr a Llanfair yn fisol
- Aelod o Bwyllgor Eisteddfod Ardudwy (Trysorydd)
- Aelod o Bwyllgor Neuadd Bentref Llanbedr
- Buddsoddi yng Ngwynedd 09/05/18
- Sesiwn Codi Ymwybyddiaeth - Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru – 15/2/18
- Siarad yn Gyhoeddus 09/02/18
- Seminar Cyllid – 5/2/18
- Rôl y Gymraeg yn y Gymuned 31/01/18
- Rhiantu Corfforaethol 10/01/18
- Polisi Gosod a Digartrefedd 22/11/17
- Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb 22/11/17
- Darllen yn Gyflym (Speed Reading) 29/09/17
- Canllaw Cynllunio Atodol – 22/9/17
- Gweithdy Aelodau Cynllun y Cyngor 2018-23 – 18/9/17
- Trefniadau Pwyllgor (Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion) 14/09/17
- Ymweliad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - 6.9.17
- Sgiliau Cwestiynu Craffu 05/09/17
- Gwneud i Gyfryngau Cymdeithasol weithio i Gynghorwyr 21/07/17
- Gweithdy TG - 19.7.17
- Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi 14/07/17
- Cynllun y Cyngor 2018-23 - 13.7.17
- Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad - 5.7.17
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 26/06/17
- Cyllideb y Cyngor 07/06/17
- Anwytho Aelodau 2017 - Cod Ymddygiad 09/05/17
- Anwytho Aelodau 2017 - Technoleg 09/05/17
- Anwytho Aelodau 2017 - Democratiaeth 09/05/17

Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

Digwyddiadau ychwanegol y bu i mi eu mynychu yn rhinwedd fy swydd fel Is-gadeirydd y Cyn-
gor:-

- Codi baner y lluoedd arfog (mynychu gyda'r Cadeirydd) – 12/6/17
- Lansio ap Llwybr Heddwch (mynychu gyda'r Cadeirydd) - 14/6/17
- Mynychu agoriad swyddogol uned newydd Ward Alaw gyda'r Cadeirydd – 23/6/17
- Cyflwyno gwobrau masnach deg yn Ysgol Edern, Pwllheli (ar ran y Cadeirydd) - 7/7/17
- Mynychu gwasanaeth Sul y Maer ym Mangor (ar ran y Cadeirydd) – 16/7/17
- Ymweld â rhai cartrefi henoed gyda'r Cadeirydd ac ar fy liwt fy hun – 19 a 21/12/17
- Codi baner y Gymanwlad (mynychu gyda'r Cadeirydd) – 12/3/18
- Mynychu cinio yn RAF Valley gyda'r Cadeirydd – 14/3/18
- Mynychu sawl seremoni Dinasyddiaeth gyda'r Cadeirydd ac wedi cynnal eraill fy hun ar ran y Cadeirydd